CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Berwyn Street, Llandrillo, Corwen, Denbighshire. LL21 0TH
Tel: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, Chwefror 2ail, 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mr. David Williams y Cadeirydd.
   Yn bresennol:
   Mrs. Eira Lewis, Mrs. Anne Williams, Mr. Huw Lloyd, Mr. Geraint Jones, Mrs. Becky Mollison-White, Mr. David Williams (Cadeirydd)

2. **Ymddiheuriadau**:
   Mr. John Wyn Jones, Mrs. Rhiannon Jones, Mr. Brynle Owen, a'r Cynghorydd Sir, Mabon ap Gwynfor. Anfonwn ein dymuniadau gorau a gwellhad buan i Non.

3. Daeth Ms. Sally Lloyd Davies o Canolfan Ni a Ms Kirsten Sedgewick o CiB (Cymorth I Bawb / Citizen's Advice Bureau) i'r cyfarfod i egluro y prosiect 'Lle Chi Neu Ni' sy'n rhan o'r Community Partnership.
   Dywedodd Sally bod y prosiect yn cael eu rhedeg o Canolfan Ni, Corwen. Nid yw Corwen bellach yn rhan o'r prosiect, bydd Corwen yn cael ei drin fel pob cymuned yn yr ardal. Mae grant y prosiect i barhau dros 4 mlynedd. Cost y prosiect yw £596,000. Maent wedi derbyn grant o £349,000, a bydd angen sicrhau y £250,000 sy'n weddill drwy casglu arian dros y 4 mlynedd nesa.
   Nôd y prosiect yw mynd i'r afael ag unigedd gwledig a thlodi. Mae hwn yn golygu amddifadedd o wasanaethau ac nid dim ond ariannol. Mae eisiau gwella lles ym mhob cymuned o fewn y 4 blynedd, ac helpu'r gymuned I sefydlu gwasanaethau a fydd yn gyfrifoldeb y Gymuned ar ôl y 4 blynedd.
   Engreifftiau o beth all y prosiect ei gynnig yw: 'Dial a Ride' - Cludo bobl rhwng y cymunedau i'w galluogi i defnyddio y gwasanaethau sydd ar gael yn y wahanol ardaloedd; 'Meals on wheels'; 'Citizen's Advice', ayyb
   Eglurodd Kirsten bod y gwasanaeth Citizen's Advice yn mynd i ehangu eu oriau agor yng Nghorwen. Byddant hefyd yn cynnig gwasanaeth ymweliad neu dros y ffon i'r rhai na fedr gyrraedd Corwen.
   Os yw'r cymunedau am ddechrau gwasanaeth neu gweithgaredd ei hunan, mae'r prosiect 'Lle Ni Lle Chi' yn gallu helpu wrth rhannol ariannu'r prosiect ac helpu i ddod o hyd i arian o ffynonnellau eraill. Yna, byddant yn gwerthuso i weld os yw'r prosiect yn ddigon llwyddiannus i fedru barhau i'r dyfodol.
   Camau nesaf – Mae angen pobl i ymuno efo'r grwp ffocws i helpu symud y prosiect ymlaen i mewn i'r cymunedau. Mae Anne ac Eira yn fodlon, a Becky fel enw ychwanegol.
   Diolchodd y Cadeirydd i Ms Sally Lloyd Davies a Kirsten Sedgewick cyn i'r ddwy adael y cyfarfod.

4. **Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 1af, 2017**

Fe'u cafwyd yn gywir, ond angen newid y dyddiad ar yr agenda o Hydref 6ed i Rhagfyr 1af, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   Derbynodd Chris Linder siec arall am adnoddau i'r cae ers y cyfarfod diweddaf am £2706.50

6. **Gohebiaeth**
   - Wedi derbyn siec am £2,000 gan Syrior am y Melinnau Gwynt.
   - Llythyr gan Mrs. Maria Williams, trysorydd y Ganolfan yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y cyfraniad o £3,000 tuag at gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei gwneud ar y Ganolfan.
   - 'Bee Friendly Scheme' – Huw wedi cymryd y gwybodaeth i teulu Ty'n y Wern.
   - 'Amseroedd Aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys – Corff Gwarchod Iechyd yn ceisio adborth gan gleifion' – i rhoi y gwybodaeth yn y hysbysfwrdd y siop.
   - Cyrsiau Cyngor – Neb angen mynd ar cwrs ar hyn o bryd.

7. **Materion Cynllunio**
   Dim materion cynllunio i drafod. Atgoffwyd bod dim gwrthwynebiadau gan neb dros y ffôn i'r cynllunio daeth drwy'r post dros 'dolig ynglyn â Oran.

8. **Materion Ariannol**
   - Wedi derbyn siec am £2,000 gan Syrior am Melinnau Gwynt

9. **Unrhyw fater arall**
   - Anne wedi dweud bod **giatiau y fynwent** angen ei paentio. Cytunodd y Cynghorwyr i Anne gario mlaen i gwblahau'r gwaith. Diolchwyd iddi.

   - Becky – Geraint Roberts, Crud yr Awel wedi cysylltu â hi i ddweud bod **wal ar gefn y fynwent** wedi syrthio i lawr ac yn disgyn i'r cae. Aeth Becky i weld, a chadarnhau bod darn o'r wal wedi disgyn. Cytunodd y Cynghorwyr i Becky gysylltu gyda 'Dei Glyn' am 'amcan bris' i atgyweirio'r wal. Ar ôl cael yr amcan-bris, Becky i cysylltu â Huw neu Geraint i symud ymlaen i wneud y gwaith.

   - Becky – Diweddariad ar sefyllfa y **llwybr yn Rhos Helyg tuag at y Fynwent**. Mae Becky wedi siarad gyda perchenog y tir, Richard Lewis. Nid yw am gadw'r gamfa ar ben draw'r cae, gan nad yw yn lwybyr cyhoeddus swyddogol, ac felly nid yw'n ofynnol iddo ei gadw. Gofynnwyd iddo os buasai'n fodlon ei gadw, gan bod dealltwriaeth pan adeiladwyd y tai y byddai'r llwybyr yn parhau – ond nid oedd yn fodlon. Cysylltodd Mabon gyda Sir Ddinbych am wybodaeth. Yn gyntaf, bydd rhaid profi bod y llwybyr wedi'w ddefnyddio gan y pentrefwyr ers dros 20 mlynedd, gyda caniatad perchenog y tir. Mae Becky wedi bod yn holi o amgylch y pentre, ac wedi derbyn lluniau a tystiolaeth o ddefnyddio'r llwybyr am oddeutu 80 mlynedd. Mae'r wybodaeth yma wedi ei drosglwyddo'r i'r Sir, ac nawr yn disgwyl ymateb ganddynt.

   - Huw – Dywedodd am ddigwyddiad i Mark a Julie Parry, Dudley Arms. Ar ddydd Mawrth, 16eg o Ionawr am tua 9 o'r gloch y nôs. Pan ddychwelodd y ddau adre, ar ôl bod I ffwrdd am y diwrnod, roedd bachgen ifanc yn eistedd yng nghefn y dafarn. Pan ofynnwyd iddo os yr oedd yn iawn, fe ateboedd, oedd, ond ei fod yn aros am ffrind.

Fe ddwedodd ei enw – Aaron, ac yna cerddodd i ffwrdd. Roedd gwraig â oedd yn byw ger y Dudley wedi sylwi, ac wedi dweud bod bachgen o'r enw Aaron yn aros yn **Branas Isa**. Fe ffoniodd Mark 101 (Heddlu Gogledd Cymru) i adrodd eu bod wedi gweld y bachgen ifanc o amgylch y pentref. Dywedodd yr heddlu y byddent yn hysbysu Gorsaf Heddlu Corwen, er mwyn gyrru rhywun allan. Ni ddaeth neb y noson hono, ac fe gysylltodd Mark â Branas Isa ei hun, ac nid oeddynt yn ymwybodol o neb ar golly no yn Branas Isa. Y bore canlynol, aeth Mark i lawr i swyddfa Heddlu Corwen i holi. Nid oedd dim cofnod o'r digwyddiad are eu system yn y Swyddfa yn Gorwen. Mae hyn yn bryder i'r cynghorwyr a thrigolion y pentre, ac fe benderfynwyd i'r Cyghorwyr yrru llythyr at Heddlu Gogledd cymru i ofyn am eglurhad i'r digwyddiad yma.

- Eira – Dywedodd am digwyddiad ynglyn a'r **cerbydau 4x4'**s sy'n dod trwy'r pentref. Fe ffoniodd Garthiaen 101 i roi gwybod i'r heddlu am niwed a waned i'w tir gan y cerbydau 4x4. Teimlwyd nad oeddynt â diddordeb yn y digwyddiad, a ni chafwyd rhif digwyddiad.
  Ar achlysur arall, fe ffoniod Mr Gwyn Edwards, Ty Ucha 101 ynglyn a digwyddiad arall gyda'r cerbydau 4x4. Eto,ni chafwyd rhif digwyddiad, a dwedwyd wrtho na fedrant wneud dim ynglyn â'r mater. Aeth Eira Lewis i holi Ceri Evans yn Swyddfa Heddlu, Corwen. Nid oedd cofnodion o'r digwyddiadau yma ar y system yn y Swyddfa yn Gorwen. Ysgrifennodd Eira at Sergeant 2143, Martin Jones yng Nghorwen yn nodi beth sydd yn digwydd wrth i drigolion ffonio 101. Fe ddarllenwyd ymateb Sergeant Martin Jones gan David Williams, y cadeirydd. Prif bwyntiau y llythyr oedd - yn flaenorol, os nad oedd trosedd wedi ei gyflawni yn y galwadau 101, nid oedd y galwadau hyn yn cael eu cofnodi. Ers hyny, mae pob galwad i 101 yn cael ei gofnodi, a'r gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddfa Heddlu lleol i'r digwyddiad. (Copi o'r llythyr hwn ar gael gyda munudau y pwyllgor diwetha.)

Cyfarfod nesaf Nos Wener, Mawrth 2il am 7.00 y.h. yn y Ganolfan.

Arwyddwyd: